# Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

## Tachwedd 2015

## Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad Byrddau Iechyd Lleol yn ôl targedau amser Llywodraeth Cymru ynghylch aros am driniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Caiff y rhan fwyaf o amseroedd aros y GIG yng Nghymru eu mesur yn ôl yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ond mae nifer o eithriadau.[1] **Y cyfnod rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw'r amser rhwng yr atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall a phan fydd y claf yn cyrraedd yr ysbyty i gael triniaeth.**[2]

Nod targedau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn y GIG yw sicrhau:

- **bod o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn aros llai na 26 wythnos rhwng yr atgyfeirio a'r driniaeth.**
- **bod yn rhaid i 100 y cant o'r cleifion nad ydynt wedi cael triniaeth o fewn 26 wythnos gael triniaeth o fewn 36 wythnos**

Bydd Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd yn ôl y targedau hyn bob mis, a'r ffigurau a ddefnyddir **yw'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd y mis.** Cyhoeddir ffigurau ar wahân ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth yn ystod pob mis,[3] ond gan nad yw'r targedau'n cynnwys y cleifion hyn nid ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn.

Mae'r ffigurau ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol a gyhoeddir yma yn cyfeirio at y cleifion a gafodd eu trin gan bob Bwrdd Iechyd Lleol, yn hytrach na'r Bwrdd Iechyd Lleol y maent yn byw ynddo. O fis Rhagfyr 2015 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data hwn ar StatsCymru, gan gyhoeddi penawdau ystadegol cryno ar y tudalennau Ystadegau ac Ymchwil. Bydd cyfres newydd o ddatganiadau cyntaf chwarterol, gyda dadansoddiadau a sylwadau manylach, yn cael ei chyhoeddi o 10 Mawrth 2016 ymlaen. Bydd y Gwasanaeth Ymchwil yn parhau i gyhoeddi'r nodyn ymchwil hwn bob mis.

## Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG ym mis Medi 2015

Dengys tabl 1 a ffigurau 1 a 2 y perfformiad yn ôl y targedau amser o 26 wythnos a 36 wythnos i aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol, ac ar gyfer Cymru gyfan, gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015.[4] Mae tabl 1 a ffigurau 1 a 2 yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Ym mis Medi 2015, ni chyrhaeddwyd y targed o 26 wythnos nac o 36 wythnos ar sail Cymru gyfan.
- Cyrhaeddodd **Bwrdd Iechyd Lleol Powys** y targedau amseroedd aros o 26 wythnos ac 36 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Medi 2015.
- **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** oedd y bwrdd iechyd lleol â'r perfformiad gwaethaf o ran cyrraedd y targed o 26 wythnos a'r targed 36 wythnos.

[1] Mae'r targedau hyn yn berthnasol i'r mwyafrif o atgyfeiriadau am driniaeth yn ysbytai'r GIG; fodd bynnag, mae nifer o eithriadau. Yn ychwanegol at hyn, mae i gyflyrau fel canser eu targedau penodol eu hunain, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y targedau cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth am dargedau atgyfeirio a thriniaeth ar gael yn nogfen Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Aros am Wasanaethau'r GIG: Cwestiynau cyffredin**, (Saesneg yn unig) 9 Mehefin 2011 [fel 12 Tachwedd 2015]

[2] Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth, Medi 2015** (Saesneg yn unig), 12 Tachwedd 2015 [fel ar 12 Tachwedd 2015]

[3] Ibid

[4] Ibid

## Tabl 1: Perfformiad yn ôl targedau amser aros ar ddiwedd mis Medi 2015 (a), (c)

| Bwrdd Iechyd Lleol | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (b) | | Dros 36 wythnos | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | |
| Abertawe Bro Morgannwg | 66,510 | 85.3 | 72,975 | 93.6 | 5,021 | 77,996 |
| Aneurin Bevan | 70,517 | 84.7 | 79,664 | 95.7 | 3,589 | 83,253 |
| Betsi Cadwaladr | 73,854 | 84.9 | 82,097 | 94.4 | 4,857 | 86,954 |
| Caerdydd a'r Fro | 72,272 | 84.7 | 83,102 | 97.4 | 2,180 | 85,282 |
| Cwm Taf | 35,044 | 81.7 | 40,269 | 93.8 | 2,645 | 42,914 |
| Hywel Dda | 47,224 | 77.6 | 54,161 | 89.0 | 6,721 | 60,882 |
| Powys | 5,403 | 99.9 | 5,409 | 100.0 | . | 5,409 |
| **Cymru** | **370,824** | **83.8** | **417,677** | **94.3** | **25,013** | **442,690** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig)


Nodiadau:

(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad Ansawdd Amser am Atgyfeiriad at Driniaeth** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.


(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion hynny sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

(c) Cyrhaeddodd y gwerthoedd yn y blychau porffor y targed amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ym mis Medi 2015.

### Ffigur 1: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos am eu triniaeth ddiwedd mis Medi 2015




### Ffigur 2: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 36 wythnos am eu triniaeth ddiwedd mis Medi 2015



## Perfformiad yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth ers mis Medi 2014

Mae Tabl 2 a ffigur 3 yn canolbwyntio ar y perfformiad, yn ôl y targedau amser aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ar sail Cymru gyfan ers mis Medi 2014.[5] Mae modd gweld yn nhabl 2 a ffigur 3:

- Nad yw'r naill darged na'r llall wedi'u cyrraedd yn ystod unrhyw fis ar lefel Cymru gyfan rhwng mis Medi 2014 a mis Medi 2015.
- Ym mis Medi 2015, roedd canran y cleifion a fu'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth 0.5 pwynt canran yn is nag yr oedd ym mis Awst, gan rannu'r safle gwaelod ers dechrau cynhyrchu ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011.
- Ym mis Medi 2015, roedd canran y cleifion a fu'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth 0.7 pwynt canran yn uwch nag yr oedd ym mis Awst, gan rannu'r pumed safle o'r gwaelod ers dechrau cynhyrchu ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011.
- Roedd nifer y cleifion a fu'n aros yn hwy na 36 wythnos am driniaeth dros 6,000 yn fwy nag yr oedd ym mis Medi 2014. Dyma'r nifer fwyaf ond pedwar ers dechrau cynhyrchu ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011.
- Ddiwedd mis Medi 2015, roedd y nifer a oedd yn aros am driniaeth dros 9,500 yn fwy nag ym mis Medi 2014.[6] Dyma'r nifer fwyaf ond dau ers dechrau cynhyrchu ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011.

**Tabl 2: Perfformiad yn ôl y targedau amser aros, ar sail Cymru gyfan, rhwng mis Medi 2014 a mis Medi 2015 (a), (b)**

| Dyddiad | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (b) | | Dros 36 wythnos | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | |
| Medi 2014 | 371,184 | 85.7 | 414,110 | 95.7 | 18,810 | 432,920 |
| Hydref 2014 | 372,006 | 86.2 | 411,771 | 95.4 | 19,785 | 431,556 |
| Tachwedd 2014 | 365,688 | 86.3 | 403,869 | 95.4 | 19,679 | 423,548 |
| Rhagfyr 2014 | 357,883 | 85.1 | 399,303 | 95.0 | 21,230 | 420,533 |
| Ionawr 2015 | 349,703 | 84.3 | 391,142 | 94.3 | 23,532 | 414,674 |
| Chwefror 2015 | 354,687 | 85.3 | 392,499 | 94.4 | 23,238 | 415,737 |
| Mawrth 2015 | 360,496 | 86.2 | 399,444 | 95.5 | 18,938 | 418,382 |
| Ebrill 2015 | 364,092 | 84.9 | 406,166 | 94.7 | 22,753 | 428,919 |
| Mai 2015 | 364,338 | 83.8 | 409,501 | 94.1 | 25,519 | 435,020 |
| Mehefin 2015 | 372,810 | 84.8 | 414,256 | 94.2 | 25,373 | 439,629 |
| Gorffennaf 2015 | 377,531 | 85.1 | 416,531 | 93.8 | 27,313 | 443,844 |
| Awst 2015 | 374,689 | 84.3 | 416,013 | 93.6 | 28,654 | 444,667 |
| Medi 2015 | 370,824 | 83.8 | 417,677 | 94.3 | 25,013 | 442,690 |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar ddogfen Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

Nodiadau:


(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth ar gyfer y galon. Caiff yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon ei ddiffinio'n wahanol i'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler **Adroddiad Ansawdd Amser rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth** (Saesneg yn unig) i gael rhagor o fanylion.

(b) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos ac sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

---

[5] Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Tachwedd 2015]
[6] Ibid

**Ffigur 3: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos ar ddiwedd y mis rhwng mis Medi 2014 a mis Medi 2015**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar ddogfen Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

Nodiadau – Gweler y nodiadau ar gyfer Tabl 2.

## Arbenigedd trawma ac orthopedeg

Er **bod targedau amseroedd aros yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad ar draws pob arbenigedd, mae'n ddefnyddiol** gweld cyfraniad arbenigeddau unigol tuag at y perfformiad.Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2011, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd pa mor anodd yr oedd i gyrraedd y targedau amser aros, a hynny yn sgil y pwysau yn y gwasanaethau orthopedeg o ganlyniad i ragor o atgyfeirio gan feddygon teulu.[7]

Ar ôl cael dyraniadau cyllid ychwanegol ar gyfer triniaethau orthopedig yn 2011-12 a 2012-13, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd £16.6 miliwn yn cael ei ddyrannu mewn cyllid blynyddol rheolaidd o 2013-14 er mwyn cynnal gwelliannau yn yr amseroedd amser am driniaeth orthopedeg.[8]

Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad, er bod gwasanaethau orthopedeg wedi dod yn fwy effeithiol yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, nid yw'r GIG yng Nghymru mewn sefyllfa i ateb y galw am y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bu'r ffocws ar sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu lleihau ar unwaith, fodd bynnag, mae llai o sylw wedi'i roi ar ddatblygu atebion mwy cynaliadwy, hirdymor i ateb y galw.

[7] Llywodraeth Cymru, Edwina Hart (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) ***Y diweddaraf ar Amseroedd Aros a Gwasanaethau Orthopedig***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 10 Mawrth 2011 [fel ar 12 Tachwedd 2015]

[8] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Ddraft 2013-14: Cyllideb Twf a Swyddi**, tudalen 38, Hydref 2012 [fel ar 12 Tachwedd 2015]

Dengys Tabl 3 y ffigurau diweddaraf ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, ddiwedd mis Medi 2015.

**Tabl 3: Amseroedd aros ar gyfer yr arbenigedd trawma ac orthopedeg ddiwedd mis Medi 2015, (a), (b)**

| Bwrdd Iechyd Lleol | O dan 26 wythnos | | O dan 36 wythnos (b) | | Cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | Nifer y cleifion sy'n aros | Canran yr holl gleifion sy'n aros | |
| Abertawe Bro Morgannwg | 7,565 | 70.2 | 8,963 | 83.1 | 10,783 |
| Aneurin Bevan | 11,211 | 74.7 | 13,234 | 88.2 | 14,998 |
| Betsi Cadwaladr | 9,511 | 68.2 | 11,651 | 83.5 | 13,952 |
| Caerdydd a'r Fro | 8,626 | 79.6 | 10,336 | 95.4 | 10,837 |
| Cwm Taf | 3,995 | 77.9 | 4,784 | 93.3 | 5,127 |
| Hywel Dda | 5,503 | 70.2 | 6,562 | 83.7 | 7,838 |
| Powys | 392 | 99.7 | 393 | 100.0 | 393 |
| **Cymru** | **46,803** | **73.2** | **55,923** | **87.5** | **63,928** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig)

Nodiadau:

(a) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros hyd at 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y cleifion sy'n aros hyd at 26 wythnos a rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.


(b) Dengys y gwerthoedd yn y blychau porffor lefel perfformiad sy'n cyfateb i'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targedau amser aros cyffredinol ym mis Medi 2015 neu'n uwch na hynny.

Ym mis Medi 2015:

- **Ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys** roedd bron pob claf yn aros llai na 26 wythnos. Ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol arall, roedd llai nag 80 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth.
- **Ym Mwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys**, roedd yr holl gleifion wedi bod yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth. Ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol arall bu llai na 96 y cant o gleifion yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol a oedd â'r ganran isaf o gleifion yn aros o dan 26 wythnos oedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**.
- Y Bwrdd Iechyd Lleol a oedd â'r ganran isaf o gleifion yn aros o dan 36 wythnos oedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**.

Gwelir cymhariaeth yn Ffigur 4 rhwng canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg yn ystod y misoedd rhwng mis Medi 2014 a mis Medi 2015.

**Ffigur 4: Canran y cleifion a oedd wedi aros llai na 26 wythnos a 36 wythnos am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg, rhwng mis Medi 2014 a mis Medi 2015**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a seiliwyd ar Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

- Ar gyfer pob mis ers mis Medi 2014, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth yn **llawer is na'r lefel angenrheidiol i gyrraedd y targed ar draws pob arbenigedd.** Ym mis Medi 2015, roedd canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos ar gyfer arbenigedd trawma ac orthopedeg wedi gostwng 0.2 pwynt canran o'i gymharu â mis Awst. Yn hyn o beth, rhannwyd y pwynt isaf ond dau dros y flwyddyn ddiwethaf, ac ers dechrau cyhoeddi ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011. [9]

- Ar gyfer pob mis ers mis Medi 2014, bu canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos hefyd **yn is na'r lefel sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed amser aros ar draws pob arbenigedd.** Roedd canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos ar gyfer arbenigedd trawma ac orthopedeg ym mis Medi 2015 yr isaf ond pedwar nag yr oedd unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ers dechrau cyhoeddi ffigurau yn y fformat presennol ym mis Medi 2011. Cynyddodd 1.3 pwynt canran o'i gymharu â mis Awst.

[9] Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig) [fel ar 12 Tachwedd 2015]

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r lincs isod yn darparu rhagor o wybodaeth am y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y papur hwn, a rhagor o wybodaeth am Amseroedd Aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG:

– Llywodraeth Cymru, **Amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth, Medi 2015** (Saesneg yn unig)

– Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

– Ystadegau Cymru, **Cleifion sy'n aros am driniaeth yn ôl y mis diwethaf, bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros** (Saesneg yn unig)

– Mae ystadegau ar gleifion sydd wedi cael triniaeth yn ystod pob mis ar gael yn:

– Ystadegau Cymru, **Cleifion sydd wedi'u trin yn ôl misoedd ac wythnosau wedi'u grwpio** (Saesneg yn unig)

– Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru**, Ionawr 2015

– Archwilydd Cyffredinol Cymru: **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**, Mehefin 2015.

I gael rhagor o wybodaeth ac ystadegau am Amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG, cysylltwch â **Nigel Barwise** (**Nigel.Barwise@cynulliad.cymru**), **yn y Gwasanaeth Ymchwi**l.

Gellir gweld **ein hystod lawn o gyhoeddiadau** ar **wefan y Cynulliad:** **http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/research/Pages/research.aspx**

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Ymholiadau.Ymchwil@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 15/2719**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales